
*1. Yr Angel Gabriel*
**Luc 1:26-28**
Pan oedd Elisabeth chwe mis yn feichiog, anfonodd Duw yr angel Gabriel i Nasareth, un o drefi Galilea, at ferch ifanc o'r enw Mair. Roedd Mair yn wyryf (heb erioed gael rhyw), ac wedi'i haddo'n wraig i ddyn o'r enw Joseff. Roedd e'n perthyn i deulu y Brenin Dafydd. Dyma'r angel yn mynd ati a'i chyfarch, “Mair, mae Duw wedi dangos ffafr atat ti! Mae'r Arglwydd gyda ti!”



*2. Dyweddïad*
**Mathew 1:18**
Dyma ddigwyddodd pan gafodd Iesu y Meseia ei eni: Roedd ei fam, Mair, wedi cael ei haddo i fod yn wraig i Joseff. Ond cyn iddyn nhw briodi a chael rhyw, dyma nhw'n darganfod fod yr Ysbryd Glân wedi'i gwneud hi'n feichiog.



*3. Cân Mair*
**Luc 1:46-55**
“O, dw i'n moli'r Arglwydd!
Mae Duw, fy Achubwr, wedi fy ngwneud i mor hapus!
Roedd yn gwybod bod ei forwyn yn ferch gyffredin iawn, ond o hyn ymlaen bydd pobl o bob oes yn dweud fy mod wedi fy mendithio,
Mae Duw, yr Un Cryf, wedi gwneud pethau mawr i mi –Mae ei enw mor sanctaidd!




(3.) Mae bob amser yn trugarhau wrth y rhai sy'n ymostwng iddo. Mae wedi defnyddio'i rym i wneud pethau rhyfeddol! – Mae wedi gyrru y rhai balch ar chwâl. Mae wedi cymryd eu hawdurdod oddi ar lywodraethwyr, ac anrhydeddu'r bobl hynny sy'n ʿnebʿ. Mae wedi rhoi digonedd o fwyd da i'r newynog, ac anfon y bobl gyfoethog i ffwrdd heb ddim!Mae wedi helpu ei was Israel, a dangos trugaredd at ei bobl. Dyma addawodd ei wneud i'n cyndeidiau ni – dangos trugaredd at Abraham a'i ddisgynyddion am byth."

*4. Angel*
**Mathew 1:20**
...gwelodd angel Duw yn dod ato a dweud wrtho, "Joseff fab Dafydd, paid petruso mynd â Mair adre i fod yn wraig i ti, am mai'r Ysbryd Glân sydd wedi gwneud iddi feichiogi."



*5. Iachawdwriaeth trwy aberth Iesu*
**Mathew 1:21**
“Bachgen fydd hi'n ei gael. Rwyt i roi'r enw Iesu iddo, am mai fe fydd yn achub ei bobl o'u pechodau.”




*6. Fe bontiodd Iesu’r bwlch rhwng y Nefoedd (Duw) a’r ddaear (dynoliaeth)*
**Mathew 1:22-23**
Digwyddodd hyn er mwyn i beth ddwedodd Duw drwy ei broffwyd ddod yn wir: “Edrychwch! Bydd merch ifanc sy'n wyryf yn feichiog ac yn cael mab. Bydd y plentyn yn cael ei alw yn Emaniwel”




*7. Llinach teulu Iesu o ddyddiau'r Brenin Dafydd*
**Luc 2:4**
Felly gan fod Joseff yn perthyn i deulu'r Brenin Dafydd, gadawodd Nasareth yn Galilea, a mynd i gofrestru yn Jwdea – yn Bethlehem, hynny ydy tref Dafydd.



*8. Y daith o Nasareth i Fethlehem*
**Luc 2:5**
Aeth yno gyda Mair oedd yn mynd i fod yn wraig iddo, ac a oedd erbyn hynny'n disgwyl babi.



*9. Llew o lwyth Jwda, Porffor yn dynodi teulu brenhinol*
**Micha 5:2**
Ond wedyn ti, Bethlehem Effrata, rwyt ti'n un o'r pentrefi lleiaf pwysig yn Jwda.
Ond ohonot ti y daw un
fydd yn teyrnasu yn Israel –
Un sydd â'i wreiddiau yn mynd yn ôl i'r dechrau yn y gorffennol pell.




*10. Baban Iesu*
**Luc 2:6-7**
Tra oedden nhw yno daeth yn amser i'r babi gael ei eni, a dyna lle cafodd ei phlentyn cyntaf ei eni...



*11. Lapio mewn cadachau*
**Luc 2:7**
Dyma hi'n lapio cadachau geni yn ofalus amdano, a'i osod i orwedd mewn cafn ar gyfer bwydo anifeiliaid.




*12. Iesu yw Tywysog Tangnefedd*
**Eseia 9:6**
Achos mae plentyn wedi cael ei eni i ni, mab wedi cael ei roi i ni. Bydd e'n cael y cyfrifoldeb o lywodraethu. A bydd yn cael ei alw yn Strategydd rhyfeddol, y Duw arwrol, Tad yr oesoedd, Tywysog heddwch.



*13. Defaid/bugeiliaid*
**Luc 2:8-11**
Yn ardal Bethlehem roedd bugeiliaid allan drwy'r nos yn yr awyr agored yn gofalu am eu defaid. Yn sydyn dyma nhw'n gweld un o angylion yr Arglwydd, ac roedd ysblander yr Arglwydd fel golau llachar o'u cwmpas nhw. Roedden nhw wedi dychryn am eu bywydau. Ond dyma'r angel yn dweud wrthyn nhw, “Peidiwch bod ofn. Mae gen i newyddion da i chi! Newyddion fydd yn gwneud pobl ym mhobman yn llawen iawn. Mae eich Achubwr wedi cael ei eni heddiw, yn Bethlehem (tref y Brenin Dafydd). Ie, y Meseia! Yr Arglwydd!



*14. Preseb*
**Luc 2:12**
Dyma sut byddwch chi'n ei nabod e: Dewch o hyd iddo yn fabi bach wedi'i lapio mewn cadachau ac yn gorwedd mewn cafn bwydo anifeiliaid.”



*15. Llu o angylion*
**Luc 2:13-14**
Yn sydyn dyma filoedd o angylion eraill yn dod i'r golwg, roedd fel petai holl angylion y nefoedd yno yn addoli Duw! “Gogoniant i Dduw yn y nefoedd uchaf, heddwch ar y ddaear islaw, a bendith Duw ar bobl.”



*16. Lledaenu'r gair a chario'r neges i eraill*

**Luc 2:15-18**

Pan aeth yr angylion i ffwrdd yn ôl i'r nefoedd, dyma'r bugeiliaid yn dweud wrth ei gilydd, “Dewch! Gadewch i ni fynd i Bethlehem, i weld beth mae'r Arglwydd wedi'i ddweud wrthon ni sydd wedi digwydd.”
Felly i ffwrdd â nhw, a dyma nhw'n dod o hyd i Mair a Joseff a'r babi bach yn gorwedd mewn cafn bwydo anifeiliaid. Ar ôl ei weld, dyma'r bugeiliaid yn mynd ati i ddweud wrth bawb beth oedd wedi digwydd, a beth ddwedodd yr angel wrthyn nhw am y plentyn yma. Roedd pawb glywodd am y peth yn rhyfeddu at yr hyn roedd y bugeiliaid yn ei ddweud.



*17. Ymgrymu i lawr – ein hymateb cywir i Iesu ein Duw*

**Salm 95:6**

Dewch, gadewch i ni ei addoli ac ymgrymu iddo;
mynd ar ein gliniau o flaen yr ARGLWYDD ein Crëwr.



*18. Emosiynau Mair fel mam Iesu*

**Luc 2:19-20**

Ond roedd Mair yn cofio pob manylyn ac yn meddwl yn aml am y cwbl oedd wedi cael ei ddweud am ei phlentyn.  Aeth y bugeiliaid yn ôl i'w gwaith gan ganmol a moli Duw am bopeth roedden nhw wedi'i weld a'i glywed. Roedd y cwbl yn union fel roedd yr angel wedi dweud.



*(18.)*


**Luc 2:33-35**

Roedd Mair a Joseff yn rhyfeddu at y pethau oedd yn cael eu dweud am Iesu. Yna dyma Simeon yn eu bendithio nhw, a dweud wrth Mair, y fam: “Bydd y plentyn yma yn achos cwymp i lawer yn Israel ac yn fendith i eraill. Bydd yn rhybudd sy'n cael ei wrthod, a bydd yr hyn mae pobl yn ei feddwl go iawn yn dod i'r golwg. A byddi di'n dioddef hefyd, fel petai cleddyf yn trywanu dy enaid di.”

*19. Yr enw Iesu yw'r ffurf Roegaidd ar Josua, sy'n golygu "yr Arglwydd sy'n achub"*

**Luc 2:21**

Pan oedd y plentyn yn wythnos oed cafodd ei enwaedu, a'i alw yn Iesu. Dyna oedd yr enw roddodd yr angel iddo hyd yn oed cyn iddo gael ei genhedlu yng nghroth Mair.



*20. Joseff a Mair yn cyflwyno colomennod fel aberth, yn ddiweddarach daeth yr Ysbryd Glân fel colomen yn ei fedydd*

**Luc 2:22-24**

Pan oedd pedwar deg diwrnod wedi mynd heibio ers i'r bachgen gael ei eni, roedd y cyfnod o buro mae Cyfraith Moses yn sôn amdano wedi dod i ben. Felly aeth Joseff a Mair i Jerwsalem i gyflwyno eu mab cyntaf i'r Arglwydd (Mae Cyfraith Duw yn dweud: "Os bachgen ydy'r plentyn cyntaf i gael ei eni, rhaid iddo gael ei gysegru i'r Arglwydd" a hefyd fod rhaid offrymu aberth i'r Arglwydd – "pâr o durturod neu ddwy golomen".)

*(20.)*

**Luc 3:21-22**

Pan oedd Ioan wrthi'n bedyddio'r bobl i gyd, dyma Iesu'n dod i gael ei fedyddio hefyd. Wrth iddo weddïo, dyma'r awyr yn rhwygo'n agored a'r Ysbryd Glân yn disgyn arno – ar ffurf colomen. A dyma lais o'r nefoedd yn dweud: "Ti ydy fy Mab annwyl i; rwyt ti wedi fy mhlesio i'n llwyr."




21. *Iesu'n datguddio ei hun fel Crist y Gwaredwr i Simeon ac i bawb*

**Luc 2:25-32**

Roedd dyn o'r enw Simeon – dyn da a duwiol. Roedd dylanwad yr Ysbryd Glân yn drwm ar ei fywyd, ac roedd yn disgwyl yn frwd i'r Meseia ddod i helpu Israel. Roedd yr Ysbryd Glân wedi dweud wrtho y byddai'n gweld y Meseia cyn iddo fe farw. A'r diwrnod hwnnw dyma'r Ysbryd yn dweud wrtho i fynd i'r deml. Felly pan ddaeth rhieni Iesu yno gyda'u plentyn i wneud yr hyn roedd y Gyfraith yn ei ofyn, dyma Simeon yn cymryd y plentyn yn ei freichiau a dechrau moli Duw fel hyn:

*(21.)*


"O Feistr Sofran! Gad i mi,
dy was,
bellach farw mewn heddwch!
Dyma wnest ti ei addo i mi –
dw i wedi gweld yr Achubwr gyda fy llygaid fy hun.
Rwyt wedi'i roi i'r bobl i gyd;
yn olau er mwyn i genhedloedd eraill allu gweld,
ac yn rheswm i bobl Israel dy foli di."



*22. Doethineb a gwybodaeth y Gwŷr Doeth*

**Mathew 2:1**


Cafodd Iesu ei eni yn Bethlehem yn Jwdea, yn y cyfnod pan oedd Herod yn frenin. Ar ôl hynny, daeth gwŷr doeth o wledydd y dwyrain i Jerwsalem.



*23. Iesu Brenin y Brenhinoedd*

**Mathew 2:1-2**

... daeth gwŷr doeth o wledydd y dwyrain i Jerwsalem i ofyn, "Ble mae'r un sydd newydd gael ei eni yn frenin yr Iddewon? Gwelon ni ei seren yn codi yn y dwyrain, a dŷn ni yma i dalu teyrnged iddo."



*24. Y seren a arweiniodd y Gwŷr Doeth*

**Mathew 2:9-10**

Ar ôl gwrando beth oedd gan y brenin i'w ddweud, i ffwrdd â nhw. Dyma'r seren yn mynd o'u blaen, nes iddi aros uwchben yr union fan lle roedd y plentyn. Roedden nhw wrth eu bodd!



*25. Rhoddion y Gwŷr Doeth*
**Mathew 2:11**
Pan aethon nhw i mewn i'r tŷ, dyna lle roedd y plentyn gyda'i fam, Mair, a dyma nhw'n disgyn ar eu gliniau o'i flaen a'i addoli. Yna dyma nhw'n agor eu paciau a rhoi anrhegion gwerthfawr iddo – aur a thus a myrr.

